

Cronfa Ieuenctid y DU – Cost Byw

Nodiadau Cwestiynau a Chyfarwyddyd

Mae'r ddogefn hon wedi'i chynllunio i'ch helpu i gwblhau'r ffurflen gais Cost Byw – Cronfa Ieuenctid y DU. Rydym yn cynghori i chi adolygu'r ddogfen hon cyn i chi ddechrau'ch cais er mwyn i chi wybod pa wybodaeth fydd ei hangen arnoch i'w chasglu ymlaen llaw. Darllenwch hefyd ein Cwestiynau a Ofynnir yn Aml, sydd â gwybodaeth fanwl am Gronfa Ieuenctid y DU.

Yn anffodus, nid oes gennym yr adnoddau i dderbyn galwadau sy'n dod i mewn. Os nad yw'r ateb i'ch cwestiwn yn yn y ddogfen gyfarwyddyd hon neu'r Cwestiynau a Ofynnir yn Aml, y ffordd gyflymaf i chi dderbyn ymateb yw i anfon e-bost atom yn funding@ukyouth.org.

Mae Ieuenctid y DU wedi ymrwmo i wneud ein cyllid grant yn hygyrch i bob ymgeisydd. Os nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf i chi, os oes angen y cais mewn fformat gwahanol arnoch neu yr hoffech gymorth ag unrhyw agwedd o'r broses ymgeisio cysylltwch â ni a byddwn yn hapus i'ch helpu i ymgeisio. Anfonwch e-bost at funding@ukyouth.org gan ddatgan 'Hygyrchedd' ym mlwch y pwnc.

Nodwch fod y mewnflwch grantiau yn cael ei fonitro Dydd Llun – Dydd Gwener rhwng 9am - 5pm ac rydym yn anelu at ymateb o fewn 24 awr.

Creu eich cyfrif

Cyn i chi allu dechrau cais, mae'n rhaid i chi greu cyfrif yn gyntaf. Dilynwch y [ddolen](#) hon a dewiswch 'Cofrestrwch yn awr'.

Cofnodwch eich holl fanylion ym mhob blwch. Cyn gynted â bod eich holl wybodaeth wedi cael ei gofnodi cliciwch *anfon cod dilysu*. Gwiriwch eich e-bost am god ac yna cofnodwch y cod isod. Byddwch yn siwr o glicio *Dilysu cod*.

Sylwch: Gwiriwch eichffolderi sgrwtsh/spam gan y gall negeseuon e-bost fod i mewn yno.


Cliciwch *Creu*. Ar y dudalen nesaf, cwblhewch y manylion personol, manylion cyswllt a data demograffig, a cliciwch *arbed*. Mae'ch cofrestrriad wedi'i gwblhau.

Cysylltu eich Sefydliad

Y rhan gyntaf o'r broses ymgeisio yw cofrestru eich sefydliad ar Borth Ieuenctid y DU. Ewch i 'Fy nghyfrif' a chliciwch *Chwilio am sefydliad ieuenctid* o dan 'Cysylltu â sefydliad ieuenctid'.

Chwiliwch am eich sefydliad trwy deipio dechrau enw'r sefydliad. Sylwch, gall yr enw ar eich cofnodion fod ychydig yn wahanol felly sgrolwch ymlaen i wirio'n ddwbl. Os yw'ch sefydliad yn ymddangos, dewiswch ef a phwyswch 'Cyflwyno'.

Sylwch: Dewiswch 'Gweinyddwr' wrth ddewis eich 'Perthynas' (beth bynnag y bo teitl eich swydd).



UK YOUTH

Donate Search Q My account Log out Basket

About us What we do Get involved News and blogs Events Grants and programmes Contact us

Organisation Details

Organisation look-up


UK Youth x -

Please select "Administrator"

Administrator -

Submit

Os nad yw'ch sefydliad wedi'i restru, bydd angen i chi ddewis y ddolen 'Cwblhewch y cais cofrestru sefydliad newydd yma'.



UK YOUTH

Donate Search Q My account Log out Basket

About us What we do Get involved News and blogs Events Grants and programmes Contact us

Organisation Details

Organisation look-up

Type and select an option -

Please select "Administrator"

Select an option -

Submit

Unable to find your organisation? Please complete the new organisation registration application [here](#)

Cwblhewch y meysydd gwybodaeth mor gyflawn a chywir â phosibl a chliciwch 'Cyflwyno' pan fyddwch yn barod.

Sylwch: Mae'r wybodaeth a ddarperir yng Ngham 4: Perthynas yn neilltuoel o bwysig gan y bydd yr wybodaeth a ddarperir yn cael ei defnyddio yn yr asesiad o geisiadau grant. Darparwch gymaint o wybodaeth ag y gallwch.

Cyn gynted â'ch bod wedi cyflwyno, byddwch yn gweld neges *Diolch*. Rydych yn awr wedi'ch cofrestru ar y porth ac yn gallu dechrau'ch cais am grant. Ewch i 'Grantiau a rhaglenni' i ddechrau'ch cais.

Cwestiynau Ffurflen Gais

Rydych yn awr wedi mynd trwy'r ffurflen gais sydd wedi cael ei rhannu'n 6 cham. Mae gan y ffurflen nodwedd 'Arbedwch ar gyfer yn nes ymlaen' rydych yn gallu'i ddefnyddio i arbed eich gwaith a dychwelyd at eich cais yn ddiweddarach. Mae'n rhaid i chi glicio 'Arbedwch ar gyfer yn nes ymlaen' i arbed eich cynnydd.

I ailgychwyn cais rydych wedi'i ddechrau eisoes, ewch i 'Grantiau a rhaglenni' a dewiswch 'Parhau â'r cais'. Gallwch gael eich cyfeirio at ddechrau'r ffurflen gais, ond bydd gwybodaeth rydych chi wedi'i chofnodi eisoes yn ymddangos wrth i chi glicio trwy'r ffurflen.

Llywiwch trwy'r camau gwahanol o'r ffurflen gais gan ddefnyddio'r botymau 'Blaenorol' a 'Nesaf' ar waelod pob tudalen. Gall defnyddio botwm yn ôl eich porwr achosi gwall. Ni fydd y ffurflen yn caniatáu i chi symud ymlaen os oes unrhyw gwestiwn yn cael ei adael heb ei ateb, ond gallwch ddod yn ôl bob amser a golygu unrhyw beth rydych wedi'i ysgrifennu cyn i chi gyflwyno'ch cais.

Cam 1 – Cyn i Chi Ymgeisio

Mae'r cam hwn er mwyn eich hannog i sicrhau eich bod wedi cwblhau manylion eich Sefydliad ar Borth Ieuenctid y DU. Os oedd eich sefydliad wedi'i gofrestru eisoes ar y porth, mae'n neilltuol o bwysig i wirio bod yr wybodaeth hon wedi'i chwblhau.

Dilynwch y ddolen a ddarperir a chwblhewch yr wybodaeth hon mor gyflawn â phosibl. Y cwestiynau pwysicaf y mae angen i chi eu cwblhau i ni yw:

- Cyfeiriad
- Rhanbarth (Dewiswch bob rhanbarth lle mae'ch sefydliad yn ymgysylltu â phobl ifanc. Gallwch ddewis opsiynau lluosog)
- Nifer o staff
- Nifer o wirfoddolwyr
- Faint o bobl ifanc ydych chi'n eu cynorthwyo bob blwyddyn?
- Â pha grwpiau oedran mae'ch sefydliad yn gweithio? (Gallwch ddewis opsiynau lluosog)
- Pa mor aml ydych chi'n gweithio gyda'r bobl ifanc ganlynol?

Cam 2 – Gofynion Cymhwyster

Mae'r dudalen hon yn manylu ar y gofynion cymhwyster ar gyfer y gronfa hon. Nid ydym am ichi dreulio'ch amser yn cwblhau cais os nad oes siawns i chi gael eich cyllido felly darllenwch y rhain yn ofalus a chadarnhewch eich bod yn ateb y meini prawf hyn er mwyn symud ymlaen â'ch cais.

Cadarnhewch y canlynol:

Mae gennych awdurdod i wneud y cais hwn am gyllid ar ran eich sefydliad.

Mae sefydliad yr ymgeisydd wedi'i leoli ac yn darparu yn y DU

Mae gan sefydliad yr ymgeisydd drosiant o lai na £500,000 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf

Mae sefydliad yr ymgeisydd yn sefydliad eluesennol neu nid-er-elw ac mae'n gallu darparu dogfen lywodraethu yn datgan hyn.

Mae gan sefydliad yr ymgeisydd fel ei brif bwrpas y ddarpariaeth o wasanaethau sydd o fudd i bobl ifanc. Mae'n rhaid i o leiaf 70% o fuddiolwyr sefydliad yr ymgeisydd fod yn 8 – 25 mlwydd oed.

Mae sefydliad yr ymgeisydd wedi bod yn gweithredu am 2 flynedd o leiaf.

Mae ymgeiswyr yn cyflwyno o leiaf un flwyddyn lawn o gyfrifon â'u cais.

Mae gan sefydliad yr ymgeisydd y prosesau a'r polisiau priodol mewn grym i gadw pobl ifanc yn ddiogel. Mae'n rhaid i hyn gynnwys Polisi Diogelu ac Iechyd a Diogelwch. Gallwn ofyn i weld os oes cyllid yn cael ei ddyfarnu i chi.

Mae gan y sefydliad sy'n ymgeisio yr yswiriannau, cymwysterau neu aelodaethau priodol i gorff llywodraethu. Gan ddibynnu ar yr hyn rydych am ei wneud gali hyn gynnwys yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, arweinyddion neu hyfforddwyr a chymwysterau arbennig neu aelodaeth o gorff llywodraethu. Gallwn ofyn i weld y rhain os oes cyllid yn cael ei ddyfarnu i chi.

Mae sefydliad sy'n ymgeisio yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018 a Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 a phob gofyniad statudol neu reolaethol perthnasol arall.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn a chymhwyster eich sefydliad, cysylltwch â ni cyn treulio amser ar eich cais.

Cam 3 – Manylion Cyswllt

Dyma'r wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen arnom i adnabod eich sefydliad yn gywir ac i gysylltu â chi. Gwiriwch yn ddwbl eich bod wedi cofnodi'ch cyfeiriad e-bost yn gywir gan mai dyma'r hyn y byddwn yn ei ddefnyddio i gysylltu â chi.

1. Sefydliad (cwymplen)

Gallwch wneud cais ar ran sefydliad sydd wedi cael ei gofrestru ar Borth Ieuencid y DU yn unig a'ch bod chi wedi cael eich cofrestru fel **Gweinyddwr** ar ei gyfer. Os nad yw'ch sefydliad yn ymddangos yn y gwymplen, bydd angen i chi gysylltu'ch cyfrif â'ch sefydliad neu gofrestru'ch sefydliad ar y porth. Edrychwch ar y cyfarwyddiadau ar sut i wneud hyn uchod.

2. Pwy yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer y cais hwn

3. Cyfeiriad e-bost neu brif bwynt cyswllt

4. Rhif Cofrestrriad y Comisiwn Elusennau

Os byddwch yn clicio 'ie' bydd blwch yn ymddangos i chi gofnodi'ch rhif Cofrestrriad Comisiwn Elusennau

5. Rhif Cofrestrriad Tŷ'r Cwmnïau

Os byddwch yn clicio 'ie' bydd blwch yn ymddangos i chi gofnodi eich rhif Cofrestrriad Tŷ'r Cwmnïau

Cam 4 – Am Eich Sefydliad a Phobl Ifanc

Mae gan y cwestiynau canlynol uchafswm terfyn nodau o 2000. Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl i chi ysgrifennu cymaint â hynny ar gyfer pob cwestiwn. Mae'r rhan fwyaf o'r cwestiynau yn gallu cael eu hateb mewn 200-300 gair, ond os hoffech chi ysgrifennu rhagor gallwch chi. Nid ydym yn disgwyl atebion wedi'u hysgrifennu'n bydfferth. Siaradwch o'ch calon am waith eich sefydliad.

6. Esboniwch y gwaith mae'ch sefydliad yn ei wneud yn gryno. Sur ydych chi'n gweithio gyda phobl ifanc, pa weithgareddau ydych chi'n eu darparu a pha mor aml?

Peidiwch ag anghofio crybwyll yr amlwg wrth ateb y cwestiwn hwn er mwyn i ni allu cael syniad clir am y gwaith mae'ch sefydliad yn ei wneud. Ydych chi'n gweithio allan o leoliad penodol? Pryd ydych chi'n agored? Beth yw'r gwaith rydych yn ei ddarparu?

7. Beth yw'r angen rydych yn ei ateb i bobl ifanc a sut ydych chi'n sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan yng nghynllunio a gweithredu'r gwasanaethau rydych yn eu darparu?

Y cwestiwn hwn yw lle mae gennych y cyfle i ddweud wrthym pam mae'ch sefydliad yn bodoli ac yn gwneud y gwaith y mae'n ei wneud. Sut ydych chi'n gwybod bod angen y gwasanaethau rydych yn eu darparu ar y bobl ifanc? Sut mae pobl ifanc yn rhannu ac yn llywio'r gwasanaethau rydych yn eu darparu? A yw pobl ifanc yn gwirfoddoli neu'n cymryd cyfrifoldebau? Ydych chi'n rhoi llais iddynt ac yn gwrando ar yr hyn maen nhw'n ei ddweud?

8. Beth mae gwaith ieuenctid o ansawdd uchel, gan gynnwys dysgu yn yr awyr agored, yn ei olygu i chi? Rhowch enghreifftiau o sut rydych yn darparu hyn.

Mae'r gronfa grant hon yn ymwneud nid yn unig â chynorthwyo sefydliadau ieuenctid sy'n cael anawsterau ariannol. Byddwn yn derbyn cannoedd o geisiadau gan sefydliadau ieuenctid mewn anhawster ariannol. Rydym am sicrhau ein bod yn cyllido'r sefydliadau hynny sy'n darparu gwaith ieuenctid o ansawdd uchel. Dywedwch wrthym beth mae hyn yn ei olygu i chi a rhowch rai enghreifftiau o sut rydych yn ei wneud. Efallai eich bod am siarad am ymarfer cynhwysol a sut rydych yn sicrhau eich bod yn cyfarfod â phobl ifanc ble maen nhw, gan sicrhau bod eu lleisiau yn gyrru cyfeiriad eich gwasanaethau. Neu gallech fod yn awyddus i siarad am sut mae'ch tîm yn datblygu perthnasoedd ymddiriedol â phobl ifanc ar ymagweddau maen nhw'n eu cymryd. Rydym yn gwybod bod gwaith ieuenctid o ansawdd uchel yn gallu ymddangos mewn llawer o leoedd, o arosfannau bws i arenâu chwaraeon i ganolfannau celfyddydau a diwylliannol, yr hyn mae gennym ddiddordeb ynddo yw sut rydych yn sefydlu egwyddorion gwaith ieuenctid yn eich ymarfer.

9. Faint o gyllid grant ydych chi'n gofyn amdano fesul blwyddyn?

Rydym yn rhagweld dosbarthu grantiau hyd at werth 10% o incwm sefydliad ymgeisydd. Felly, os oedd gan eich sefydliad drosiant o £250,000 llynedd yna ni fyddem yn disgwyl i chi ofyn am fwy na £25,000 y flwyddyn. Gall fod rhai eithriadau neilltuol i'r rheol hon, ond hyd yn oed wedyn mae'n annhebygol y byddwn yn dosbarthu grantiau llawer uwchben y trothwy 10%.

Rydym yn ymwybodol fod gan rai sefydliadau llai sy'n gofyn am symiau grant llai rwyd diogelwch ariannol llai a byddent yn gwerthfawrogi ymateb cyflym i'w ceisiadau. Felly, bydd pob cais sy'n gofyn am £10,000 y flwyddyn neu lai yn cael eu prosesu'n gyflym a dylent dderbyn hysbysiad ar ganlyniad eu cais mewn 3 – 4 wythnos o ymgeisio. Os ydych yn gofyn am swm mwy na £10,000 y flwyddyn dylech dderbyn hysbysiad ar ganlyniad eich cais o fewn 7 wythnos o ymgeisio.

10. Sut fyddwch chi'n defnyddio'r cyllid hwn?

Bydd y cyllid yn anghyfyngedig am 3 blynedd felly gallwch ei ddefnyddio fel y dymunwch. Rydym am wybod sut rydych yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwn a'r budd a ddaw ohono. Nid ydym yn disgwyl clywed am syniadau newydd neu arloesol oni bai mai dyna sydd ei eisiau arnoch. Rydym yn hapus iawn i gyllido gwaith sy'n bodoli i sicrhau ei fod yn gallu parhau. Os ydych yn gwybod sut y byddwch yn defnyddio'r cyllid hwn dros y 3 blynedd nesaf, mae hynny'n wych, dywedwch wrthym. Neu gallwch ganolbwyntio ar y flwyddyn gyntaf ac wedyn rhoi syniad i ni ar sut y byddwch yn defnyddio'r grant dros y ddwy flynedd ddilynol.

11. Beth sydd wedi achosi'r angen ariannol hwn? Beth ydych chi wedi'i wneud eisoes a beth yw eich cynlluniau os nad ydych yn sicrhau'r cyllid sydd ei angen arnoch?

Dywedwch wrthym am brif achosion eich sefyllfa ariannol bresennol. Gallai hyn fod oherwydd biliau penodol yn cynyddu, colled incwm, angen rhoi codiad cyflog parchus i'ch staff, cynnydd sylweddol a brys mewn galw am eich gwasanaethau nad ydych yn gallu eu hateb heb fuddsoddiad ychwanegol neu resymau eraill. Cofiwch, nid cronfa argyfwng yn unig yw hon – mae dymuno osgoi argyfwng ariannol yn eich sefydliad a chreu sefydlogrwydd yr un mor ddilys.

Mae'n bwysig nad ydym yn opsiwn cyntaf i chi i ddatrys eich problemau ariannol. Rydym am wybod eich bod wedi gweithredu eisoes naill ai i dynhau eich treuliau

neu gynyddu eich incwm. Hoffem hefyd wybod beth yw eich cynlluniau os nad ydym yn gallu dosbarthu cyllid i chi.

Yng ngham nesaf y ffurflen gais bydd angen i chi ddarparu manylion ariannol o'ch cyfrifon diwethaf y bydd angen i chi hefyd eu lanlwytho â'ch cais. Os ydych yn disgwyl i'r ffigurau ar gyfer eich blwyddyn bresennol fod yn sylweddol wahanol, yna dywedwch wrthym yma. Er enghraifft, os yw'ch cyfrifon yn dangos arian iach wrth gefn, ond bod hyn wedi cael ei wario yn awr; neu os ydych chi'n disgwyl i'ch incwm neu wariant fod yn sylweddol wahanol.

Cam 5 – Eich arian

Bydd y cwestiynau canlynol yn ein helpu i ennill dealltwriaeth glir o'ch sefydliad o bersbectif ariannol. Lanlwythwch gopi o'ch cyfrifon blwyddyn lawn diweddaraf. Mae'n rhaid i'r wybodaeth rydych yn ei darparu isod ymwneud yn uniongyrchol â'r cyfrifon hyn. Os ydych chi'n disgwyl i'r ffigurau hyn fod yn sylweddol wahanol eleni, yna dywedwch wrthym yn eich ateb i gwestiwn 11.

12. Cyfanswm incwm am y flwyddyn

Dylai'r ffigur hwn gael ei restru yn y cyfrifon blwyddyn lawn diweddaraf y byddwch yn eu lanlwytho â'ch cais.

13. Cyfanswm gwarant am y flwyddyn

Dylai'r ffigur hwn fod fel y mae wedi'i restru yn y cyfrifon blwyddyn lawn diweddaraf y byddwch yn eu lanlwytho â'ch cais.

14. Costau codi arian am y flwyddyn

Dylai'r ffigur hwn fod fel y mae wedi'i restru yn y cyfrifon blwyddyn lawn diweddaraf y byddwch yn eu lanlwytho â'ch cais. Os nad yw'ch cyfrifon yn rhestru costau codi arian, yna amcangyfrifwch.

15. Arian rhydd wrth gefn

Dylai'r ffigur hwn gael ei restru yn y cyfrifon blwyddyn lawn diweddaraf y byddwch yn eu lanlwytho â'ch cais. Os nad yw'ch cyfrifon yn rhestru arian rhydd wrth gefn, yna amcangyfrifwch.

Cam 6: Adolygu cais a Dogfennau Cefnogol

Dyma'r cam olaf cyn cyflwyno'ch cais. Cyn cyflwyno, defnyddiwch y botymau 'Blaenorol' a 'Nesaf' o fewn y ffurflen i fynd yn ôl a gwirio eich atebion.

Cyn gynted â'ch bod wedi adolygu eich ymatebion, lanlwythwch gopi o'ch cyfrifon blwyddyn lawn diweddaraf a datganiad banc. Mae'n rhaid i'r wybodaeth ariannol a ddarperir ar y dudalen flaenorol ymwneud yn uniongyrchol â'r cyfrifon hyn. Mae'n rhaid i'r datganiad banc ddangos yn glir enw eich sefydliad, rhif y cyfrif a chod didoli. Dyma'r cyfrif y bydd unrhyw grantiau a ddosberthir yn cael eu talu iddo. Yn anffodus, nid ydym yn gallu derbyn darluniau sgrîn o fancio ar-lein gan nad yw'r rhain yn ateb y safonau sy'n ofynnol ar gyfer diwydrwydd dyledus ariannol.


Byddem yn ddiolchgar iawn os gallech sicrhau bod gan y ffeil cyfrifon a'r ddelwedd o'ch datganiad banc enw'ch sefydliad yn enw eu ffeil.

Pan fyddwch yn hapus â'ch cais ac rydych wedi lanlwytho'r ddwy ffeil, cliciwch y botwm cyflwyno. Cyn gynted â bod cais wedi cael ei gyflwyno ni fydd yn bosibl i chi ei olygu na'i ddiwygio.

Tudalen Ianio ar gyflwyno ac e-bost awtomataidd

Pan fyddwch wedi cyflwyno'ch cais yn llwyddiannus byddwch yn gweld neges gadarnhau ac yn derbyn e-bost cadarnhau awtomataidd.

Bydd yr e-bost cadarnhau yn darparu'r manylion i chi ar sut i weld eich cais ar borth leuenctid y DU. Bydd eich cais yn ymddangos fel 'Cyflwynwyd'. Bydd y statws hwn yn newid i 'O dan adolygiad mewnol' cyn gynted â'n bod wedi dechrau adesu eich cais.



Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch a ni yn funding@ukyouth.org.